# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MAWRTH, 4YDD MAWRTH, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**jasminejones@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 24 Chwefror 2025)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |
| Gwilym Jones | Aelod Lleol |
| June Jones | Aelod Lleol |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Dr Melfyn Edwards | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| Sedd Wag | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| I'w gymeradwyo | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| I'w gymeradwyo | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| I'w gymeradwyo | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Will Walker-Jones | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Desmond George | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| David Williams | Deputy - Aberdyfi Harbour Consultative Committee |
| Stephen Tudor | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| R Medwyn Hughes | Cabinet Member for Economy and Community |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gymhaliwyd ar 01/10/24 fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 9 - 14

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 30/09/25.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 1/10/24

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) a Will Walker-Jones (Sefydliad y Bad Achub Criccieth).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Llyr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Malcolm Humphreys (Harbwrfeistr Porthmadog), Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**SYLWEDYDD:** Desmond George (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

**YMDDIHEURIADAU:** Dr Melfyn Edwards (Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog) a Robert Owen (Cynrychioli Buddiannau Masnachol).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gwilym Jones yn gadeirydd ar gyfer 2024/25.**

Cydymdeimlwyd â theulu'r Dr John Jones-Morris fu'n aelod ffyddlon o'r pwyllgor hwn am flynyddoedd lawer.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd June Jones yn is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dr Melfyn Edwards (Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog) a Robert Owen (Cynrychioli Buddiannau Masnachol).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

(1) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad bras i'r pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 a Hydref 2024.

Ymhellach i gynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau y byddai'n ymddeol yn llawn ar 31 Mawrth, 2025, yn dilyn cyfnod o ymddeoliad hyblyg. Nododd fod ei swydd wedi ei hysbysebu gyda'r gobaith o'i llenwi cyn cyfnod y Nadolig fel bod modd i ddeilydd newydd y swydd ei gysgodi yn y rôl dros y misoedd nesaf.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelod, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod yr hysbysiad swydd allan ers tua wythnos a bod dau gais i law hyd yma. Bwriadai fonitro'r sefyllfa dros y dyddiau nesaf, a phe na fyddai yna lawer mwy o geisiadau yn cyrraedd, byddai angen ystyried lledaenu'r hysbyseb yn y wasg, ayb.

Diolchodd yr Uwch Swyddog Harbyrau i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Swyddog Harbyrau am ei holl waith ar hyd y blynyddoedd, gan ddymuno iddo ymddeoliad hapus. Diolchodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a'r Harbwrfeistr iddo am ei wasanaeth hefyd, gan nodi y byddai colled fawr ar ei ôl.

Materion Ariannol
Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol grynodeb byr o gyllidebau'r Harbwr 01/4/24 - 31/3/25 (Adolygiad Awst 2024), a gynhwyswyd fel atodiad i'r adroddiad. Nodwyd yn benodol:-

- Bod yna orwariant o dan y pennawd Gweithwyr oherwydd costau goramser. Nodwyd bod staff yr Harbwr wedi bod yn cynorthwyo mewn harbyrau eraill a hefyd ar draeth Morfa Bychan oherwydd trafferthion recriwtio staff eleni. Nodwyd hefyd bod y swyddogion wedi gorfod ymateb i rai digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Bod yna danwariant sylweddol o dan y pennawd Eiddo a gellid defnyddio'r arian yma i gwrdd â gorwariant dan benawdau eraill o'r gyllideb.
- Bod y ffigwr £39 yn y golofn 'Gwariant a Ragwelir' dan y pennawd 'Trafnidiaeth' yn wallus, ac er na ellid cadarnhau'r gwir ffigwr ar hyn o bryd, ni ragwelid y byddai'n uwch na'r swm o £800 a glustnodwyd ar ei gyfer yn y gyllideb.
- Bod yna orwariant o dan y pennawd Gwasanaethau a Chyflenwadau am sawl rheswm, yn benodol: oherwydd costau uchel cynnal a chadw cychod a'r angen i uwchraddio system CCTV yr Harbwr a buddsoddi mewn offer diogelwch newydd.

- Y clustnodwyd £30,000 yn y Gronfa Forwrol ar gyfer gwella'r tir a'r compownd yn Harbwr Porthmadog gyda'r gwaith yn digwydd dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf. Gellid diweddaru'r Pwyllgor ar ddatblygiad y cynllun yn y cyfarfod nesaf.
- Y rhagwelid diffyg incwm o £5,210, a hynny'n bennaf oherwydd y tywydd anffafriol dros fisoedd yr haf a'r lleihad yn nifer y cychod pŵer sydd wedi'u cofrestru.
- O ran y Cyfanswm Net, rhagwelid diffyg o ychydig dros £6,000, sy'n eithaf da o ystyried y tywydd. Canmolwyd y staff ar lwyddo i ddenu £80,900 o incwm yn yr hinsawdd anodd sydd ohoni.

Holwyd a oedd sefyllfa fregus yr economi wedi effeithio ar yr incwm. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod hyn yn debygol o fod yn ganlyniad cyfuniad o bethau, yn cynnwys yr economi a'r tywydd, ayyb.

Ffioedd a Thaliadau 2025/26
Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ei bod yn gynamserol ar hyn o bryd i wneud unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf a gobeithid bod mewn sefyllfa i gynnig y ffioedd arfaethedig ar ddiwedd y flwyddyn. Pwysleisiwyd yr angen i fod yn wyliadwrus rhag codi'r ffioedd yn rhy uchel yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned
Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod nifer y cwsmeriaid gyda chytundeb angori yn ein harbyrau wedi codi o 250 i 266. Amlygwyd bod y wasgfa ariannol yn golygu bod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, bod y gost yn is. Eglurwyd bod rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Cofid. Adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd.

Boddhad Cwsmer Harbyrau
Eglurwyd bod yr holiadur boddhad cwsmer ar wefan y Cyngor ers mis Gorffennaf 2023, a bod yna 'QR codes' wedi eu gosod dros yr Harbwr i annog cwsmeriaid i gwblhau'r holiadur. Adroddwyd bod 86% o'r ymatebwyr o'r farn bod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (81%) neu'n 'Dda' (5%), a bod neb wedi nodi bod eu profiad yn wael. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol am broffesiynoldeb ac agwedd ein swyddogion, gyda rhai yn datgan bod y swyddogion yn "wybodus" ac "wedi mynd allan o'u ffordd i helpu". Nodwyd bod yna hefyd sylwadau adeiladol. Nodwyd ymhellach bod y Gwasanaeth yn monitro'r ymatebion i'r holiaduron, ac yn gobeithio gweithredu ar unrhyw sylwadau i wella'r Gwasanaeth.

Archwiliad Tŷ'r Drindod
Nodwyd bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio cant y cant â gofynion statudol Tŷ'r Drindod. Cadarnhawyd y bydd yr archwilwyr yn dod draw eto'n fuan, a rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth yn cydymffurfio yn llawn unwaith eto â'r gofynion.

Boddhad Cwsmer Traethau
Nodwyd bod 76% o ymatebwyr yr holiadur o'r farn bod eu profiad o draethau Gwynedd yn 'Dda Iawn' (58%) neu'n Dda (18%). Mynegwyd, yn gyffredinol, bod yr adborth yn eithaf cadarnhaol.

(2) Adroddiad yr Harbwrfeistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Chwefror 2024 a Hydref 2024, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

Cyn cychwyn cyflwyno ei adroddiad, diolchodd yr Harbwrfeistr i Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), am ei waith caled dros yr un flynedd ar ddeg ddiwethaf. Diolchodd hefyd i Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) am roi benthyg y beic dŵr i'r Gwasanaeth am y trydydd tymor.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

Holwyd a fwriedid gosod plinth llechen Gymreig o dan y strwythur metel ar ffurf draig. Mewn ymateb nodwyd bod y llechen yn dod o Llechwedd, Blaenau Ffestiniog a'i bod yn cyd-fynd â'r cerrig yn yr Harbwr.

Holwyd a oedd bwriad addasu'r peiriant talu ac arddangos yn yr Harbwr i alluogi talu trwy Ap. Mewn ymateb, nodwyd bod archwiliad mewnol wedi cynghori symud oddi wrth arian parod, gan fod yna lawer o waith ynghlwm â gwagio'r peiriant a chyfri'r pres, ac ati. Cadarnhawyd y bydd y peiriant ym Mhorthmadog yn galluogi talu drwy'r Ap neu gerdyn credyd o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen, ac o bosib' y bydd angen batri pŵer yr haul i'w wefru.

Nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod llecyn wedi'i adnabod ar y gwair ger y compownd ar gyfer lleoli cerflun arall sy'n dod i Borthmadog. Credid y byddai hyn yn ased i Harbwr Porthmadog ac yn addas iawn ar gyfer y safle. Eglurwyd na fyddai'n cael ei ariannu o'r gyllideb forwrol.

Holwyd a fwriedid cynnwys gwybodaeth ar y peiriannu talu am barcio yn esbonio bod yr arian yn mynd yn benodol i'r Adran Forwrol tuag at reolaeth y safle. Awgrymwyd y gallai gwybodaeth o'r fath annog pobl i barcio yn y maes parcio yma yn benodol os ydynt yn deall lle mae'r arian yn mynd. Mewn ymateb nodwyd bod yna gyfeiriad penodol ar rai safleoedd at y ffaith bod yr arian yn mynd tuag at gynhaliaeth y safle. Nodwyd bod y pwynt yn un dilys, ac yn rhywbeth i'w drafod fel rhan o'r gwaith rhagbaratoi ar gyfer y peiriannau newydd.

**PENDERFYNIAD Nodi a derbyn yr adroddiad.**

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth, 2025.

Dechreuodd y cyfarfod am 5:30yp a daeth i ben am 6:20yp.

____________________________

(Cadeirydd)

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
|---|---|
| DYDDIAD | 4 Mawrth 2025 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr |
| AWDUR | Uwch Swyddog Harbyrau |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Porthmadog a Chofrestru Cychod.**

2.1 Cyn y Pasg, bydd yr Harbwrfeistr a'i Gymhorthydd yn goruchwylio'r gwaith o adnewyddu a chynnal a chadw'r cadwyni codi ac angorfeydd tir a leolir yn yr harbwr. Cwblheir y gwaith gan gontractwr angorfeydd a benodwyd yn lleol.

2.2 Disgwylir i gwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn yr harbwr neu gofrestru eu cychod dŵr ar gyfer y tymor sydd i ddod gwblhau'r broses berthnasol ar-lein yn brydlon o 1 Ebrill, ar wefan Cyngor Gwynedd. Os oes angen arweiniad i gwblhau'r prosesau angenrheidiol, gofynnwch am gyngor gan swyddfa'r harbwr, lle bydd staff yn hapus i'ch helpu.

2.3 Mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod prysur yn ystod yr haf eleni ac y bydd cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn parhau i fwynhau'r amgylchedd morol.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo,

addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

**4. Materion Staffio**

4.1 Mae Mr Daniel Cartwright, y cyn-harbwrfeistr yn harbwr Abermaw wedi cael ei benodi fel Uwch Swyddog Harbyrau yn lle Mr Arthur Jones. Dechreuodd Daniel gael cyfrifoldeb am ei rôl ar 1 Ionawr 2025 gan fod Arthur yn ymddeol yn swyddogol o'r Gwasanaeth ar 31 Mawrth. Ymunodd Arthur â'r gwasanaeth yn 2015, yn goruchwylio gweithrediad Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd yn Harbyrau Gwynedd. Yn ystod ei gyfnod o fewn yr adran, mae wedi gweithio i greu Tîm Morol cryf a sylfaen i staff y dyfodol adeiladu arni. Byddwn yn colli ei wybodaeth, arbenigedd a chreadigrwydd i'r Gwasanaeth ac rydym yn dymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

4.1.1 Mae'r Harbwrfeistr, Mr Malcolm Humphreys, a'i gymhorthydd, Mr Richard Hughes, yn parhau i ddarparu gwasanaeth i ymwelwyr a chwsmeriaid yr harbwr yn Harbwr Porthmadog. Pe bai ymrwymiadau gwaith yn gofyn am hynny, mae'r staff Morwrol sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Abermaw ac Aberdyfi hefyd ar gael i gynorthwyo os oes angen.

4.2 Dros y gaeaf, mae'r swyddogion wedi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw yn yr harbwr, yn ychwanegol at waith a wnaed ym Mhorth-y-Gest ac ar draethau cyfagos Morfa Bychan a Chricieth.

4.3 Yn ôl yr arfer, bydd swyddogion traethau tymhorol yn cael eu penodi ar draethau Morfa Bychan a Chricieth, erbyn i dymor prysur yr haf ddechrau. Gobeithir y bydd y tywydd yn ffafriol eleni er mwyn croesawu'r ymwelwyr i'r traethau.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

5.2 Yn ystod y gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod:

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2025/26**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Porthmadog, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2025/2026, fel ag o'r blaen, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Porthmadog yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **4 Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M. Humphreys, Harbwrfeistr Porthmadog** |

## H 1 Materion Mordwyo

1.1 Mae staff yr harbwr wedi parhau i fonitro cwrs y sianel fordwyo dros gyfnod y gaeaf. Er gwaethaf stormydd y gaeaf a'r cynnydd o ganlyniad yng nghyfaint y dŵr sydd wedi bod yn llifo allan o afonydd Glaslyn a Dwyryd, nid yw cwrs y sianel fordwyo wedi newid fawr.

1.2 Mae staff yr harbwr yn monitro sianel eilaidd ar hyn o bryd, sy'n ymddangos i fod yn agor tuag at Harlech, yn nesáu at Borthmadog o Fae Ceredigion. Bydd arolygon pellach ar y sianeli yn cael eu cynnal wrth i dymor y gwanwyn agosáu. Os bydd angen, bydd y marciau mordwyo yn cael eu symud gan staff yr harbwr i gynorthwyo morwyr i ddefnyddio'r llwybr mwyaf diogel i'r harbwr ac oddi yno.

1.3 Wrth ysgrifennu hyn - mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym ar hyn o bryd:

1.3.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 10/24. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo marc dŵr diogel "Bwi Fairway", lleoliad 52°52.970’N 004°11.200’W ar ei safle priodol ar hyn o bryd oherwydd cynnal a chadw.

1.3.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr Rhif 1/25. Nid yw'r cymhorthydd mordwyo llaw Starboard bwi rhif 11 sydd ar safle 52°54.499’N 004°08.965’W° ar ei safle priodol ar hyn o bryd ar ôl golchi i'r lan yn ystod tywydd garw.

1.3.3 Mae'r gwasanaeth yn cynghori y bydd y ddau gymhorthydd mordwyo yn dychwelyd i'r sianel fordwyo cyn gynted ag y bo modd yn dilyn cynnal a chadw ac adnewyddu.

1.4 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Mae hyn oherwydd y dyfnder dŵr sydd ar gael dros y bar tywod wrth y fynedfa tua'r môr i'r sianel fordwyo.

1.5.1 Rydym hefyd yn atgoffa morwyr y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn dod i mewn, i dderbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Mae'r "gwasanaeth" yn gweithredu ar VHF Ch 12. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Hysbysiad Lleol i Forwyr.

## H 2 Materion Gweithredol

2.1 Trwy gydol y gaeaf, mae symudiadau cychod pŵer a chychod hwylio yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig iawn, oherwydd y tywydd anffafriol a brofwyd. Yn ystod y stormydd, arhosodd staff yr harbwr wrth law er mwyn bod yn

barod i ymateb i unrhyw ddigwyddiad oedd yn codi. Mae'n braf adrodd nad oedd difrod i unrhyw gychod na strwythur yr harbwr.

2.2 Rhagwelir y bydd y cychod hynny sydd ar y lan yn yr iardiau cychod yn cael eu dychwelyd yn raddol i'r dŵr wrth i'r Pasg ddynesu. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio denu cwsmeriaid newydd ar gyfer y tymor sydd i ddod, yn seiliedig ar y nifer o ymholiadau newydd a wnaed yn swyddfa'r harbwr dros gyfnod y gaeaf, ar gyfer argaeledd angorfeydd.

2.3 Hoffai'r Gwasanaeth gynghori pob cwsmer yr harbwr i ofyn am angorfa yn yr harbwr, bod ffurflenni angori yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosib, gan ddefnyddio'r system gofrestru angori ar-lein. Bydd y system ar gael o 1 Ebrill eleni. Nid yw ffurflenni angori ar ffurf papur yn cael eu derbyn rhagor. Petai unrhyw drafferth ynghylch cwblhau'r broses ar-lein, dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr am gymorth.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Ar 3 Rhagfyr 2024, cynhaliwyd archwiliad tanddwr o angorfeydd yr harbwr gan gontractwr lleol. Yn dilyn yr archwiliad, derbyniwyd argymhelliad y bydd angen cadwyni codi newydd ar 13 o angorfeydd.

3.1.1 Yn ystod yr archwiliad, nodwyd hefyd bod cadwyn fawr yr harbwr, a gafodd ei newid y tymor diwethaf am £30000 i'r Gwasanaeth, wedi dod yn llac rhwng yr angorfeydd sydd wedi'u rhifo'n 24 i 29. O ganlyniad, bydd angen cynnal mwy o waith i ddatrys y mater.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn cynghori y bydd yr holl waith angori angenrheidiol yn cael ei gwblhau cyn i dymor prysur yr haf gychwyn.

3.2 Mae gwasanaeth blynyddol peiriannau cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr wedi ei gwblhau heb lawer o wario. Mae'r cwch hwn hefyd wedi cael archwiliad blynyddol gan syrfëwr morol cymeradwy, yn unol â gofynion cychod gwaith yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau.

3.3 Mae staff yr harbwr wedi cynnal gwaith cynnal a chadw yn ddiweddar ar gwch gweini bychan yr harbwr o'r enw 'Dwyryd'. Ar ôl archwiliad, darganfuwyd bod dŵr yn dod i mewn drwy starn y cwch. Mae'r mater yma bellach wedi ei ddatrys ac mae'r cwch wedi ei ddychwelyd i'r dŵr.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Lloc yr Harbwr:** Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Lloc yr Harbwr. Mae 40 o blanhigion Griselinia wedi cael eu plannu o flaen ffensiau pren yr harbwr yn wynebu llithrfa'r harbwr er mwyn gwneud yr ardal yn fwy deniadol yn weledol. Wrth i amser fynd ymlaen, bydd y planhigion yn tyfu i ffurfio gwrych fydd yn cuddio ffensiau pren y lloc y tu hwnt**.**

4.1.1 Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar dir lloc yr harbwr, sydd yn cynnig arwyneb concrid rhannol. Bydd yr arwyneb newydd yn dod yn lle'r llechi mân cyfredol i ddarparu amgylchedd mwy ymarferol yn y lloc.

4.2 **Cerfluniau’r Harbwr:** Ar ôl derbyn rhodd caredig o gerflun o ddraig fetel i'r harbwr gan deulu o ofaint o ardal Wrecsam, cysylltwyd ag Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd i bennu’r lleoliad mwyaf diogel i leoli'r cerflun. Ar ôl dilyn cyngor, mae'r ddraig o'r enw "Dixie" wedi ei lleoli ar wely o lechi, y tu ôl i swyddfa'r harbwr mewn amgylchedd diogel.

4.2.1 Mae'r cerflun wedi bod yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr yr harbwr, yn ogystal â’r bwi llaw Starboard mawr segur, sydd wedi'i leoli ar flaen yr harbwr wrth ymyl y bont ffordd, wrth ddynesu at lwybr cerdded yr harbwr.

4.2.2 Mae atyniad pellach yn cael ei osod ar hyn o bryd yn amgylchedd yr harbwr, sef cerflun wedi'i greu gan Howard Bowcott, cerflunydd yn Eryri sy'n arbenigo mewn comisiynau preifat a phrosiectau celf cyhoeddus. Mae'r cerflun, sydd wedi'i leoli ar ochr y llwybr cerdded y tu ôl i swyddfa'r harbwr, wedi'i lunio o bren a llechi ac yn dangos hanes a thraddodiad yr harbwr.

4.3 **Peiriant y Maes Parcio:** Mae'r Gwasanaeth yn edrych ar osod peiriant 'Talu ac Arddangos' yn y maes parcio y tu ôl i Swyddfa'r Harbwr. Y bwriad yw darparu peiriant sy'n medru derbyn taliadau cerdyn.

4.4 **Borth-y-Gest.** Hoffai'r Gwasanaeth atgoffa defnyddwyr yr harbwr o'r angen i gau'r giatiau wrth gerdded tuag at y llithrfa ym Mhorth-y-Gest yn ystod y gaeaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn amodau stormus lle mae llifogydd yn debygol o ddigwydd yn ardal y maes parcio.

**H5 Digwyddiadau**

5.1 Er i ni ragweld hyn, nid yw'r Gwasanaeth wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau arfaethedig yn Harbwr Porthmadog, yn enwedig wrth i'r harbwr ddathlu ei ben-blwydd ddaucanmlwyddiant eleni. Dymuna'r Gwasanaeth atgoffa trefnwyr digwyddiadau o'r angen i roi gwybod yn ddigon buan am unrhyw ddigwyddiad arfaethedig i ni er mwyn iddynt dderbyn caniatâd.

5.1.1 Wrth ystyried caniatáu unrhyw ddigwyddiad, bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw dyladwy i'r wybodaeth a dderbyniwyd yn manylu ar yr amgylchiadau. Mae gan y Gwasanaeth yr hawl i osod unrhyw gyfyngiadau, amodau neu derfynau sy'n angenrheidiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd a'r staff.

| HARBWR PROTHMADOG | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2024 at 31 Mawrth 2025 - Adolygiad Tachwedd 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/24 at 31/3/25 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/24 at 31/3/25 | GOR (TAN) | Adolygiad Awst | Gwahanaieth Rhwng Adroddiad Awst ac Adroddiad Tachwedd |
| Gweithwyr | 73,510 | 79,181 | 5,671 | *3,420* | *2,251* |
| | | | | | |
| Eiddo | 28,590 | 12,999 | (15,591) | *(18,678)* | *3,088* |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | 800 | 352 | (448) | *(761)* | *313* |
| | | | | | |
| Gwasanethau a Chyflenwadau | 13,660 | 22,230 | 8,570 | *16,858* | *(8,287)* |
| | | | | | |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | | 525 | 525 | *525* | *0* |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | 116,560 | 115,288 | (1,272) | 1,363 | (2,635) |
| | | | | | |
| Incwm | (86,110) | (76,035) | 10,075 | *5,210* | *4,865* |
| Cyfraniad o Cronfeydd Tuag at Wariant Un Tro | 0 | (525) | (525) | (525) | 0 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Net** | **30,450** | **38,728** | **8,278** | **6,048** | **2,230** |

Evaluation Only. Created with Aspose.PDF. Copyright 2002-2021 Aspose Pty Ltd.

# Harbwr Porthmadog Harbour

Mae'r sianel yn newid ei chwrs yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf


The channel changes it's course on a regular basis, it's adviced to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.

01766 512927 / 07879 433 147, VHF 12/16

Rhybydd / Caution

Nid yw gael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo

Not to be used for navigation




25/02/2025

Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda draft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.

The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water,vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway | LFlw 10s | 52° 52.970 N | 004° 11.200 W |
| 1 | Q FL G | 52° 53.337 N | 004° 10.826 W |
| 2 | Q FL R | 52° 53.643 N | 004° 10.567 W |
| 3 | FL G 3s | 52° 53.651 N | 004° 10.061 W |
| 4 | FL R(2)5s | 52° 53.633 N | 004° 09.740 W |
| 5 | FL G(2)5s | Occasional | Achlysurol |
| 6 | FL R (3)10s | 52° 53.610 N | 004° 09.532 W |
| 7 | FL G (3)10s | Occasional | Achlysurol |
| 8 | FL G (4)15s | Occasional | Achlysurol |
| 9 | FL G (4) 15s | 52° 53.965 N | 004° 09.287 W |
| 10 | FL R 2.5s | 52° 54.209 N | 004° 09.234 W |
| 11 | FL G (5) 20s | Dim ar safle | Not on station |
| 12 | FL G 4s | 52° 54.638 N | 004° 08.382 W |
| 13 | FL R 2s | Occasional | Achlysurol |
| 14 | FL R 6s | Occasional | Achlysurol |
| 15 | FL G (2) 5s | 52° 54.808 N | 004° 08.050 W |
| 17 | FL G 6s | 52° 55.015 N | 004° 07.866 W |